

ei chyfraniad hael tuag at gronfa'r capel.
Yn ystod y noson fe gyflwynwyd tystysgrifau a llyfrau i'r rhai hynny o'r capel a gafodd eu bedyddio yn ddiweddar gan y Gweinidog. I gloi'r noson mwynhawyd cwpanaid o dê a danteithion amrywiol yn y festri. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu at lwyddiant y noson.
Rydym nawr yn edrych ymlaen at yr oedfa Nadolig gymunedol a fydd yn cael ei chynnal ar y Sul cyn yr hwyl. (*Diolch i Mair am adroddiad y Gymanfa.*)


Arwerthiant Seion

30 Tachwedd
am 3.00 y prynhawn

Cacennau, poteli, cynnyrch
cartre a mwy;
paned a bisgedi i bawb

Mynediad am £1: croeso i
bawb

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Tachwedd**: Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net



Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Hydref a Thachwedd 2013

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus.

6 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

13 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Mr Gerwyn Morgan
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

20 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Oedfa Ddiolchgarwch yng nghwmni plant a phobl ifainc Noddfa, Caersalem a Bethel
Noddfa	5.00 y prynhawn	

27 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Dwynwen Teifi
Bethel	10.15 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

Cinio'r Cylch

Roedd hi'n olygfa braf gweld dros hanner cant ohonom yn dod at ein gilydd i fwynhau noson gymdeithasol yn y Grannell, Llanwnnen, ar nos Fawrth 10 Medi.
Wyn Gruffydd oedd y siaradwr gwadd, a braf oedd ei groesawu ef a'i briod, Gwyneth. Mae'r ddau yn gymeriadau cyfarwydd i nifer yn y cylch; bu tad Wyn, y diweddar Barchg W. J. Gruffydd, yn weinidog ar eglwys Noddfa, a magwyd Gwyneth yn eglwys Salem Caeo. Yn ei anerchiad difyr (a hynny heb damed o nodiadau), aeth Wyn â ni ar daith i sawl gwlad wrth iddo adrodd straeon am ei ymweliadau â phedwar ban y byd yn sgil ei waith fel gohebydd rygbi, a chw'rdd â chymeriadau lliwgar. Yn sicr, mae Wyn wedi etifeddu dawn dweud ei dad, ac roeddem fel cynulleidfau wedi cael ein cyfareddu gan ei straeon.

Dyma'r pedwerydd tro i'r Cylch gynnal noson o'r fath, er bod y Cylch mewn bodolaeth ers deng mlynedd. Roedd hi'n ddiweddar cyfnod fodd bynnag, gydag ymdeoliad Mrs Nesta Harries yn Ysgrifennydd y Cylch. Diolchwyd yn gynnes iddi am ei holl waith a'i chynhaliadau yn ystod y deng mlynedd gan y Gweinidog, a chyflwynwyd rhodd i Nesta yn arwydd o werthfawrogiad y cylch ohoni. Croesawyd hefyd Ysgrifennydd newydd y cylch, Delyth Phillips. Llywyddwyd y noson yn raenus a di-ffws gan Gadeirydd y Cylch, Janet Evans. Brenda Jones roddodd weddi'r gras bwyd. Talwyd y diolchiadau gan Dai Gwarffynnon – diolchodd i Wyn am ei anerchiad, i Nesta Harries am y trefniadau, i Janet am lywio'r noson, ac i'r Grannell am bryd bwyd gwerth chweil.
Braf oedd dod at ein gilydd fel cylch o eglwysi er mwyn profi hwyl a chwmniâeth. Edrychwn ymlaen yn barod at ginio 2014! (*Diolch i Delyth am yr adroddiad yma*)

Cwrdd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd

4ydd o Dachwedd am 1.30
Festri Aberduar
Croeso i chwiorydd (a brodyr)
eglwysi'r Cylch a'r cyffiniau

Oedfa eciwmnaidd

28 Tachwedd 2013
Mount Carmel
7 o'r gloch
Croeso i bawb!.

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

3 Tachwedd

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

10 Tachwedd

Aberduar	10.00 y bore	Mr Silyn Thomas
Bethel	2.00 y prynhawn	Mrs Delyth Morgans Phillips
Brynhafod	3.30 y prynhawn	Mrs Delyth Morgans Phillips

17 Tachwedd

Noddfa	9.30 y bore
Aberduar	11.00 y bore
Caersalem	2.00 y prynhawn

24 Tachwedd

Aberduar	10.00 y bore	Arwyn Pierce
Bethel	10.15 y bore	cyfnewid pulpud y bore: Parchg Judith Morris
Brynhafod	1.30 y prynhawn	
Seion	3.00 y prynhawn	

Rhagysbys: 1 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

Oedfaon Diolchgarwch y Cylch

(am 7 ym mhob man ond am 2 hefyd yn Aberduar, gyda phlant yr ysgol gynradd)

Seion	3ydd o Hydref	Mrs Delyth Morgans Phillips
Caersalem	10ed o Hydref	Parchg Huw George
Bethel	15ed o Hydref	Parchg Athro Densil Morgan
Aberduar	16eg o Hydref	Parchg Judith Morris

Bedydd Brynhafod ac Aberduar

Daeth aelodau eglwysi'r Cylch ynghyd i Aberduar ar gyfer oedfa fedydd ar fore Sul y 1af o Fedi, pan fedyddiwyd Enfys, Gethin a

I gael 'Deufis' ar ffurf pdf ar e-bost, anfonwch air ataf i 'jilltomos@tesco.net'.

Gwawr Hatcher, Rhian a Carys Wilson, Cari Thomas, (Brynhafod) Lowri a Hedydd Wilson, a Richard a Rhian Milcoy (Aberduar). Roedd hi'n ddiwrnod i werthfawrogi ffydd y Cristnogion ifainc hyn a'u parodwydd i ysgwyddo'r iau yn eu bro, a hefyd ymdrechion y rhai fu'n gweithio yn yr eglwysi ar draws y degawdau, yn weinidogion ac yn aelodau, ac yn athrawon Ysgol Sul. Bu llawer o waith i baratoi'r fedyddfan – rwy'n siwr fod rhai o ddiaconiaid Aberduar yn colli degawd bant o'u hoedran ar gyfer achlysur fel hwn, a'r cam yn sioncach wrth y gwaith, a gwn y bu gohebu rhyngwladol i sicrhau'r trefniadau ar gyfer cynhesu'r dŵr! Ar ôl yr oedfa, roedd parti yn y festri, a neb angen cinio ar ôl mynd adre. Diolchwn i Dduw am ei ddaioni i ni, ac am ddyddiau llawenydd, a gweddiwn y bydd yn cynnal ac yn bendithio ein pobl ifanc, a chymeraf y cyfle, ar fy rhan fy hun, ac ar ran y bobl ifainc, i ddiolch i bob un a gyfrannodd at ddiwrnod arbennig a chofiadwy.

Oedfa Eisteddfod Pantyfedwen

Eleni, Noddfa gafodd y fraint o gynnal yr oedfa hon, felly roedd hi'n braf gweld llawr y capel yn gyfforddus lawn ar ei chyfer ar fore Sul olaf mis Awst, a phobl o'r Cylch ac o'r ardal ynghyd. Ieuentid Noddfa gymerodd at y rhannau arweiniol, a'r Parchg Eirian Wyn Lewis, Mynachlogddu, fu'n pregethu yn ei ffordd hwyliog ei hun, a'n hannog i 'wisgo amdanom yr Arglwydd Iesu'. Casglwyd cyfanswm o £145 i'w rannu rhwng y Cyngor Ysgolion Sul a Chymorth Cristnogol.

Newyddion o Frynhafod

Oedfaon y aelodau

Ar yr 8fed o Fedi, Margaret Wilson gymerodd at agor yr oedfa gymun ar thema 'Derbyn, a dod yn aelod', ac rydym yn gwerthfawrogi ei chyfraniad hi, a'r rhai oedd gyda hi yn ein cynorthwyo ni i addoli. Yn ystod yr oedfa, fe dderbyniwyd Enfys Hatcher a Carys Wilson yn aelodau o eglwys Brynhafod. Roedd hi'n braf i gael cwmni nifer o'r rhai gafodd eu bedyddio, ac edrychwn ymlaen at gael eu derbyn i gyd cyn bo hir.

Cymanfa Ddiolchgarwch Brynhafod

Ar nos Sul, Medi 22ain cynhaliwyd Cymanfa Ddiolchgarwch ym Brynhafod am yr ail flwyddyn. Daeth tyrfa dda o aelodau a chyfeillion at ei gilydd a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Iwan Evans a Briallt Williams. Arweinydd y noson oedd Enfys Hatcher a gwnaeth hynny mewn ffordd hwyliog a bywiog iawn gan sicrhau bod pawb yn mwynhau wrth gyd-ganu'r emynau poblogaidd. Cafwyd eitemau cerddorol graenus gan aelodau o CFFi Llanwenog. Cyfeilwyd gan Carys Evans. Llywydd y noson oedd Sally Rees, Cei Bach (Penlanoeth gynt). Diolchwyd iddi am